

CYLCHLYTHYR Y GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION

YN Y RHIFYN HWN:

- Croeso nôl
- Gwerthusiad
- Diweddariadau Gwasanaeth (sbotolau ar hyfforddiant, rhaglenni peilot a diweddariadau fîm)



CROESO NÔL GAN BOB UN OHONOM YN Y GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION!

Gobeithiwn eich bod wedi cael haf hamddenol ac yn barod ar gyfer tymor newydd. Dros yr haf, rydym wedi bod yn brysur yn adolygu ein cynnig, yn datblygu adnoddau newydd, yn diweddaru ein rhai presennol, ac yn mireinio ein prosesau. Rydym yn gyffrous i barhau i weithio gyda lleoliadau addysg ledled Caerdydd a Bro Morgannwg yn y flwyddyn academaidd newydd hon.

GWERTHUSIAD DIWEDD BLWYDDYN

Hoffem ddiolch i chi am lenwi'r ffurflen werthuso diwedd blwyddyn. Mae eich adborth wedi ein helpu i ddod ynghyd i adolygu, diweddaru a datblygu ein gwasanaeth, gan gynnwys:

- Adolygu ein cynnig hyfforddi
- Datblygu fideos byr newydd, wedi'u diweddaru, fel Cyflwyniad i SIR ar gyfer staff ysgol
- Adeiladu ar ein prosiectau peilot a diweddaru ein hadnoddau



Sganiwch i gael mynediad at ein fideos byr!


Rhwng Medi 2025 a Gorffennaf 2026:

946	RFAs a dderbyniwyd
2104	Ymgynghoriadau a gwblhawyd
43	Hyfforddiant a ddarparwyd
338	Gweithwyr proffesiynol a hyfforddwyd
19	Grwpiau a hwyluswyd



59
Ymatebion

23
ysgolion




Mae ein huchafbwyntiau'n cynnwys:

"Mae gallu trafod materion llesiant dysgwyr... yn golygu nad ydw i'n teimlo'n ynysig gyda'r materion."

Beth oedd rhan fwyaf defnyddiol o'r gwasanaeth?

"Mynediad cyflym at gefnogaeth ac arweiniad gyda dysgwyr. Caniatáu sgysiau agored i ddatblygu llwybrau i gynorthwyo dysgwyr."

Rwy'n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth dda gan y Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion



CYLCHLYTHYR Y GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION

DIWEDDARIADAU GWASANAETH




Cefnogi Dysgwyr Gofidus:

Dros y flwyddyn, rydym wedi datblygu ein hyfforddiant Cefnogi Dysgwyr Gofidus; gweithdy rhyngweithiol 3 awr i feithrin dealltwriaeth o beth yw gofid, sut y gall ymddangos yn yr ystafell ddosbarth, a sut y gall staff gefnogi dysgwyr. Mae'r sesiwn yn cynnig offer ymarferol i helpu staff i gael sgysiau cefnogol gyda phobl ifanc.

Rydym wedi bod yn falch iawn o gynnal peilot o'r hyfforddiant gydag ysgolion cynradd ac uwchradd. Fel rhan newydd o'n cynnig hyfforddiant, rydym wedi cael ein calonogi'n fawr gan yr adborth cynnar gan staff sydd wedi cymryd rhan ac rydym yn edrych ymlaen at ei gyflwyno'n eang dros y misoedd nesaf.

Mae gen i well dealltwriaeth o sut mae dysgwr gofidus yn teimlo ... gan sylweddoli nad oes rhaid i mi ddod o hyd i atebion a gallaf wrando yn unig

'Doeddwn i erioed wedi defnyddio'r mynydd iâ o'r blaen ac roeddwn i'n meddwl ei fod yn offeryn gwych!'



Newidiadau i'r tîm

Daeth tymor yr haf hwn â rhai newidiadau i'n tîm. Fe wnaethon ni ffarwelio'n gynnes â Carolyn a Lisa, gan ddiolch iddyn nhw am eu holl gynhesrwydd, eu creadigrwydd, eu hymroddiad a'u cefnogaeth a'r cyfraniad enfawr maen nhw wedi'i wneud at lunio ein gwasanaeth. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Ar yr un pryd, rydym wrth ein bodd yn croesawu Millie i'r tîm, a fydd yn gweithio gyda ni mewn ysgolion dros y tymhorau nesaf. Hoffem hefyd longyfarch Leanne ar ddechrau ei rôl newydd fel Ymarferydd Iechyd Meddwl yn y Fro yn llwyddiannus! Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod ac at barhau i feithrin cydberthnasau cadarnhaol gyda'r plant, pobl ifanc, teuluoedd ac ysgolion rydym yn eu cefnogi.

TIMAU ARDAL MEWNGYMORTH YSGOLION SCHOOL IN-REACH TEAM


Uwch Ymarferyddion Iechyd Meddwl Senior Mental Health Practitioners



Vicky Gillespie



Elen Hughes



Corrine Chambers



Natalie Baron



Kirsty Vincent



Angie Morgan

Ymarferwyr Iechyd Meddwl Mental Health Practitioners




Leanne Coundley



Emma Michelet



Elin Davies



Corrine Chambers

Arweinydd y Tîm Team Lead



Amy Brown

Ymarferydd Mewngymorth Ysgolion School In-Reach Practitioners



Pooja Antony



Millie Wiggins



Hayley Frieze-Crimmins

Arweinydd Clinigol Clinical Lead



Dr Rhian Murphy

CYLCHLYTHYR Y GWASANAETH MEWNGYMORTH YSGOLION

DIWEDDARIADAU GWASANAETH

Rhaglenni Mentora Cymheiriaid a Chyfaill Pontio

Rydym yn parhau i gynnal ein rhaglen mentora cymheiriaid ar draws nifer o ysgolion uwchradd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, er mwyn meithrin cydberthnasau rhwng dysgwyr iau a chymheiriaid chweched dosbarth. Y llynedd fe wnaethon ni ddatblygu set o adnoddau, gan gynnwys taflenni, pecyn i staff a llyfryn i fentoriaid ei ddefnyddio mewn sesiynau, sydd bellach yn cael eu defnyddio. Mae wedi bod yn hyfryd gweld ein mentoriaid presennol yn meithrin cydberthnasau mor gynnes a chadarnhaol ac yn gwneud defnydd gwyb o'r rhaglen.



Yn dilyn cyflwyno ein rhaglen mentora cymheiriaid, rydym yn gyffrous i dreialu ein Rhaglen 'Cyfaill Pontio' newydd mewn dwy o'n hysgolion yn y Fro. Mae'r cynllun peilot ynparu dysgwyr Blwyddyn 8/9 â dysgwyr Blwyddyn 6/7 i'w helpu i deimlo'n gartrefol ac yn hyderus wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol uwchradd. Cadwch lygad allan am fwy o ddiweddariadau wrth i'r rhaglen ddatblygu dros y tymhorau nesaf!



Mae ein gwefan wedi cael ei hadnewyddu!

Gallwch archwilio ein cynigion gwasanaeth diweddaraf, pori ein casgliad wedi'i ailwampio o fideos byr, a chael gafael ar adnoddau cyfoes sydd wedi'u cynllunio i'ch cefnogi.



Sganiwch i gael mynediad i'n gwefan



Diweddariad Mewngymorth Ysgolion Cynradd

O fis Medi 2026, ni fydd Mewngymorth Ysgolion bellach yn darparu cymorth uniongyrchol i ysgolion cynradd. Oherwydd y galw cynyddol a chyfyngiadau ariannol, bu'n rhaid i ni flaenoriaethu cymorth ar gyfer ysgolion uwchradd prif ffrwd. Bydd ysgolion cynradd yn parhau i gael croeso i fynychu cyfleoedd hyfforddi perthnasol ochr yn ochr â chydweithwyr o ysgolion uwchradd.